# Sut i Adnewyddu eich Cofrestriad Landlord

## 1. Mewngofnodi ac adfer manylion

Ewch i **www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/security/login/** a mewngofnodi i'ch cyfrif gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair.

Os ydych wedi anghofio eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair yna cliciwch ar y botwm 'anghofio cyfrinair' a byddwch yn gallu adennill y rhain.





## 2. Gwybodaeth y landlord

Ar ôl i chi fewngofnodi i'ch cyfrif, ar y blwch crynodeb cofrestriad landlord (y blwch pinc), fe welwch 'adnewyddu cofrestriad. Os oes angen i chi adnewyddu eich cofrestriad o fewn y 84 diwrnod calendr nesaf, cliciwch ar 'adnewyddu cofrestriad' i ddechrau.

Byddwch wedyn yn mynd i adran gyntaf eich cais i adnewyddu cofrestriad landlordiaid – 'Gwybodaeth y Landlord'. Yma, gallwch adolygu eich manylion personol. Dylech sicrhau bod popeth yn gywir, a diwygio unrhyw beth sydd wedi'i newid.

**Sylwch:** Ni fyddwch yn gallu newid 'trefniant perchnogaeth' y cofrestriad landlord gan eich bod yn adnewyddu cofrestriad eich landlord, sy'n barhad o'r cofrestriad landlord blaenorol a greoch. Os yw'r trefniant perchnogaeth wedi newid ar gyfer yr eiddo rhent yn eich cofrestriad, bydd angen i chi greu cofrestr landlord newydd ar gyfer y trefniant newydd.

Cliciwch 'Nesaf' i symud i'r dudalen nesaf.





## 3. Rhestru eiddo

Byddwch wedyn yn parhau i 'Rhestru eiddo'. Yma, byddwch yn adolygu'r eiddo sydd eisoes ar eich cais i adnewyddu cofrestriad landlord. Gallwch ddiweddaru'r eiddo sydd eisoes yno, ychwanegu eiddo rhent newydd sydd yn un trefniant perchnogaeth, neu ddileu eiddo nad ydych yn landlord arno mwyach, neu sydd bellach yn eiddo mewn gwahanol drefniant perchnogaeth.

**Sylwch:** Rhaid i chi ddatgan pob adeilad neu ran o adeilad a ddefnyddir fel annedd ar wahân. Os rhennir eiddo yn fflatiau neu'n fflatiau un ystafell, byddai pob fflat yn cael ei datgan a'i chofrestru'n unigol.

Os oes gennych Dŷ neu Fflat a Rennir wedi'i restru isod ar hyn o bryd, sydd wedi'i drefnu fel cytundebau tenantiaeth ar wahân (e.e. fflatiau un ystafell mewn adeilad a rennir), cliciwch yr eicon pensil i olygu'r cofnod a rhannu'r eiddo yn denantiaethau ar wahân. Ar ôl i chi gwblhau eich adolygiad, dylech glicio 'nesaf'



## 4. Gwybodaeth am eiddo

Yma, byddwch yn rhoi gwybodaeth am yr eiddo rhent sy'n gysylltiedig â'ch cais am adnewyddu cofrestriad landlord.


**Sylwch:** Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yn dibynnu ar fath yr eiddo.

Enghreifftiau o gwestiynau a ofynnir yw:

- Sawl llawr y gellir byw arno sydd yn yr adeilad sy'n cynnwys yr eiddo rhent?
- Faint o bobl sy'n byw yn yr eiddo rhent?
- A oes cyflenwad nwy i'r eiddo rhent?

Byddwch yn cwblhau'r broses hon ar gyfer pob eiddo ar eich cofrestriad, a byddwch yn mynd drwyddynt drwy glicio 'nesaf'. Rhaid i wybodaeth ar gyfer pob eiddo fod yn gyflawn cyn symud ymlaen i'r sgrin nesaf.


Unwaith y byddwch wedi cofnodi'r holl wybodaeth am eiddo, mae gofyn i chi gwblhau **datganiad** ynghylch y wybodaeth a ddarparoch cyn symud i adran nesaf y cais.




## 5. Taliad

Yn  y sgrin nesaf byddwch yn talu am eich cais i adnewyddu cofrestriad landlordiaid. Mae'r ffioedd ar gyfer cofrestru landlordiaid, am y tro cyntaf ac adnewyddu i'w gweld yn ein polisi ffioedd ar ein gwefan **yma**.

Dylech ddewis 'Talu Nawr' i fynd i'r sgriniau talu lle byddwch yn cofnodi eich manylion talu.




## 6. Crynodeb cofrestru

Ar ôl i chi gwblhau eich taliad bydd eich cais i adnewyddu cofrestriad landlordiaid wedi'i gwblhau a chewch gadarnhad o hyn ar y sgrin derfynol sef y 'crynodeb cofrestru.'

Os oes angen trwydded arnoch, neu os oes gennych drwydded, yna bydd y sgrin grynhoi derfynol hefyd yn cynnwys y wybodaeth hon ac yn cynnwys gwybodaeth am sut i fwrw ymlaen, os oes angen cymryd unrhyw gamau.

Byddwch hefyd yn cael e-bost yn cynnwys eich dogfen gofrestru ar ôl cwblhau'r broses adnewyddu eich cofrestriad landlord.Os oes angen unrhyw gymorth arnoch ffoniwch, 03000 133344 neu e-bostio rhentudoethcymru@caerdydd.gov.uk